# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

## DYDD IAU, 20FED EBRILL, 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr S.M. Allen, S.M. Caiach, I.W. Davies, T.T. Defis, D.J.R. Llewellyn, K. Madge, E. Morgan, J. Owen, E.G. Thomas, J.S. Williams a M.J.A. Lewis (yn lle W.T. Evans)

**Yn bresennol fel sylwedyddion:-**
Y Cynghorydd J. Tremlett – Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr R. Staines | - | Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd |
| Ms S. Sauro | - | Rheolwr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. – 10.55 a.m.**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W.T. Evans, B.A.L. Roberts a J. Williams.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith na fyddai'r Cynghorwyr T.T. Defis, D.J.R. Llewellyn, J. Williams a J.S. Williams yn dychwelyd ar ôl yr etholiad. Diolchodd iddynt am eu cyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

### 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Madge | Cofnod Rhif 5 – Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2017-20 | Mae ei ferch yn gweithio ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol a'i wraig yn gweithio gyda'r GIG. |

### 3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

### 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

### 5. ADRAN CYMUNEDAU: CYNLLUN BUSNES YR ADRAN AM 2017-2020

[SYLWER: NODER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd blaenoriaethau'r adran o ran yr elfennau gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n rhan o Gynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2017-20

Cyflwynwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at yr anawsterau a oedd yn wynebu staff wrth i'r gyllideb barhau i ostwng ac wrth i'r galw barhau i gynyddu, mynegwyd diolch a llongyfarchiadau i'r swyddogion am yr holl waith yr oeddent yn ei wneud i bobl Sir Gaerfyrddin;
- Gofynnwyd beth oedd yr heriau mwyaf a oedd yn wynebu'r adran o ran gofal cymdeithasol ac iechyd. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd mai un o'r heriau oedd y galw a'r newidiadau yn y galw hwnnw, fodd bynnag, un o'r heriau mwyaf yw'r gweithlu. Cyfeiriodd at y ffaith fod 900 o ofalwyr â thâl yn gadael y sector gofal bob dydd, ac felly roedd yn hanfodol sicrhau bod ganddynt weithlu profiadol sydd wedi'i hyfforddi ac yn barod ar gyfer y gwaith. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o sicrhau bod gofal yn cael ei ystyried yn broffesiwn gwerthfawr a gwerth chweil;
- Cyfeiriwyd at nifer y gwobrau yr oedd staff gofal cymdeithasol yr Awdurdod wedi'u hennill yn ystod Gwobrau Cymru Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain ym mis Hydref, a rhoddwyd llongyfarchiadau i'r staff am eu llwyddiannau a diolchwyd iddynt am eu hymroddiad a'u hymrwymiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2017-20 yn cael ei dderbyn.**

## 6. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a fanylai ar y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a fanylai ar y rhesymau dros beidio â chyflwyno dau adroddiad i'r pwyllgor craffu:-

- Cynllun Gweithredu Lleol mewn ymateb i Adroddiad Jasmine (gan gynnwys Gweithdrefnau Pryderon Cynyddol Llywodraeth Cymru)
- Yr Iaith Gymraeg mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.**

## 8. COFNODION - 6ED MAWRTH 2017

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2017, gan eu bod yn gywir.**

AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL DYDDIAD